Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Datganiad Technegol ar Gynllunio Morol Cychod Hamdden – Diogelu'r Sector

Mawrth 2023



## Cynnwys

Cyflwyniad 3

Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol 3

Twristiaeth a Hamdden – Cychod Hamdden 3

Polisi Diogelu SAF_01 4

Diogelu Cychod Hamdden: Polisi SAF_01b 5

Darparwyd Llun y Clawr gan Croeso Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46668, ISBN digidol 978-1-80535-236-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cyflwyniad

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC, https://llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru) yn fframwaith polisi statudol sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch datblygu'n moroedd yn gynaliadwy. Mae'n disgrifio gweledigaeth ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal cynllun morol Cymru a'r polisïau ar gyfer eu gwireddu. Mae Canllawiau Gweithredu (Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: canllawiau gweithredu https://llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-canllawiau-gweithredu?) wedi'u paratoi i ategu'r Cynllun ac i roi mwy o fanylion am bolisïau CMCC i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mewn ffordd gyson.

Mae CMCC yn cynnwys polisïau cefnogi a diogelu ar gyfer rhai o'r sectorau sy'n defnyddio moroedd Cymru. Mae polisïau cefnogi yn helpu i sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y sector. Mae polisïau diogelu'n diogelu buddiannau'r sector rhag effeithiau amhriodol gan weithgareddau eraill.

## Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol

Diben y Datganiad Technegol hwn ar Gynllunio Morol yw sicrhau bod polisi diogelu'r sector cychod hamdden yn CMCC, un o'r prif weithgareddau hamdden yn ardal CMCC, yn cael ei weithredu'n effeithiol ac mewn ffordd gyson. Dylech ei ddarllen ochr yn ochr â CMCC a Chanllawiau Gweithredu CMCC. Os oes ansicrwydd ynghylch gofynion CMCC neu ei bolisïau, neu ynghylch sut i'w gweithredu, dylai penderfynwyr droi at CMCC am eiriad a bwriad diffiniadol y polisi.

Mae'r Datganiad Technegol hwn wedi'i lunio ar gyfer y rheini sydd â rhan yn y penderfyniadau all effeithio ar ardal y cynllun morol, er enghraifft:

- Ymgeiswyr am brosiectau;
- Penderfynwyr mewn awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau a rheoleiddwyr cynllunio môr a thir; a
- Defnyddwyr eraill ardal y cynllun morol.

Mae'r Datganiad Technegol hwn yn rhoi cyd-destun hefyd i bawb sy'n defnyddio ardal y cynllun morol er mwyn deall pa ardaloedd sy'n bwysig i fuddiannau'r sector cychod hamdden ac sy'n cael eu diogelu trwy bolisïau CMCC. Dylid ystyried y Datganiad Technegol hwn ochr yn ochr â pholisïau, canllawiau a thystiolaeth anstatudol eraill sy'n ymwneud â'r cynllun morol i gefnogi cynllunio morol yng Nghymru. Gellid ei ddiweddaru o dro i dro.

## Twristiaeth a Hamdden – Cychod Hamdden

Mae CMCC yn cydnabod bod gan dwristiaeth a hamdden ran bwysig yn economi Cymru ac maen nhw'n hollbwysig i economi llawer o'n hardaloedd glan-môr. Mae'n cydnabod hefyd y manteision arwyddocaol o ran iechyd a lles y gall gweithgareddau hamdden ar y glannau a'r môr eu darparu.

Mae'r sector Twristiaeth a Hamdden, fel y'i diffinnir yn CMCC, yn amrywiol ac amlweddog, ac yn cynnwys gweithgareddau hamdden adloniannol yn yr amgylchedd lleol yn ogystal â gweithgareddau, gwasanaethau a seilwaith sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a phobl ar eu gwyliau. Mae cychod hamdden yn rhan bwysig o'r sector Twristiaeth

a Hamdden ac yn weithgaredd hamdden pwysig yn ardal cynllun morol Cymru, ac yn cyfrannu at gymeriad cyffredinol amgylchedd ein moroedd.

Mae cychod hamdden yn rhan annatod hefyd o lawer o'n cymunedau arfordirol. Mae Cymru'n gartref i ryw 90 o glybiau a chanolfannau hyfforddi. Ceir clystyrau o glybiau a chanolfannau hyfforddi o gwmpas Caerdydd a'r Barri, ardal Bae Abertawe, Sir Benfro, Pen Llŷn, Ynys Môn ac arfordir y Gogledd. Mae cysylltiad rhwng Ardaloedd Cychod Cyffredinol y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA) (ardaloedd yn y môr ar gyfer hwylio, rasio a gweithgareddau hamdden eraill) a'r clybiau a'r canolfannau hyfforddi. Mae'r dyfroedd wrth lannau Cymru yn werthfawr hefyd ar gyfer hwylio pell (mordeithiau). Mae data'r System Adnabod Awtomatig (AIS), ar gyfer cychod 20-25 metr a mwy, yn dangos bod llawer o ddefnyddio ar gychod ar hyd arfordir Sir Benfro ac Aberdaugleddau, Pen Llŷn, ym Maeau Abertawe a Chaerdydd ynghyd â'r ardal i'r gogledd o Ynys Môn ac Afon Menai. Mae data o ap SafeTrx y RYA yn dangos bod y sefyllfa'n debyg ar gyfer cychod hamdden llai, megis dingis a chychod hwylio dydd.

## Polisi Diogelu SAF_01

Mae'r sector Twristiaeth a Hamdden, gan gynnwys gweithgarwch cychod hamdden, yn cael ei ddiogelu gan Bolisi SAF_01b yn CMCC, a Pholisi SAF_01a sy'n diogelu harbyrau a marinas, sy'n rhan o'r sector porthladdoedd a llongau, gan gynnwys y rheini sy'n bwysig i weithgarwch cychod hamdden. Mae'r nodyn technegol hwn yn ymdrin â chychod hamdden yn unig.

Diben Polisi SAF_01b yw sicrhau bod ystyriaeth glir a systematig yn cael ei rhoi i weithgareddau presennol wrth wneud penderfyniadau ynghylch y môr, gan gynnwys unrhyw gynigion newydd all effeithio'n niweidiol arnyn nhw. Er bod gweithgareddau fel cychod hamdden yn rhai symudol a dros dro, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth ofalus iddynt wrth wneud penderfyniadau ac nad ydynt yn cael eu dadleoli heb angen neu mewn ffordd annerbyniol.

Mae Polisi SAF_01b yn cydnabod y gallai fod yn amhosib ambell dro osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ddefnydd sefydledig. Ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, mae'r polisi'n creu hierarchaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig ddangos sut y byddent yn delio â materion cydnawsedd. Os na ellir gwneud hynny, bydd gofyn i ddatblygwyr, wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer eu prosiect arfaethedig, gyflwyno achos clir sy'n argyhoeddi er mwyn cyfiawnhau bwrw ymlaen â'u cynigion.

Ni fydd y ffaith bod achos wedi'i gyflwyno o blaid bwrw ymlaen â chynnig yn golygu y caiff ei gefnogi. Mater i'r penderfynwr fydd hynny, gan bwyso a mesur yr achos dros fwrw ymlaen â'r cynnig (a chyfraniad y cynnig at dargedau eraill fel buddiannau economaidd neu gymdeithasol) yn erbyn ei effeithiau niweidiol posibl a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill. Bydd cymhwyso'r polisi mewn ffordd gymesur a rhesymegol yn helpu'r sector cychod hamdden i ffynnu ochr yn ochr â gweithgareddau a defnyddiau eraill er lles cenedlaethau heddiw ac yfory.

## SAF_01b: Diogelu gweithgaredd presennol

Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar weithgaredd sefydledig nad yw'n destun awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

O dan SAF_01b, dylid dangos cydnawsedd, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y gweithgareddau hynny, a/neu
- Lleihau'r effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol lle na ellir eu lleihau.

## Diogelu Cychod Hamdden: Polisi SAF_01b

Mae **Polisi SAF_01b** yn berthnasol i bob cynnig gan bob sector (gan gynnwys cynigion newydd gan y sector Twristiaeth a Hamdden) sydd â'r potensial i effeithio ar **weithgaredd cychod hamdden sy'n digwydd eisoes**.

Dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau a datblygiadau ar y môr ystyried yr effeithiau posibl ar gychod hamdden. Gallent gynnwys risgiau o ran:

- Diogelwch mordwyo, gan gynnwys effeithiau ar offer mordwyo a chyfathrebu cychod bach a chynyddu'r perygl o wrthdaro â chychod â strwythurau neu gêr sefydlog sy'n gysylltiedig â chynnal gweithgaredd morol; ac
- Effeithiau ar fynediad at lwybrau mordwyo a mordeithio, ar ardaloedd hwylio a rasio cyffredinol, y posibilrwydd o symud cychod hamdden i lwybrau masnachol, colli angorfeydd neu borthladdoedd lloches.

Er bod y rhan fwyaf o weithgarwch twristiaeth a hamdden yn digwydd o fewn 3 milltir forol i'r arfordir a bod peth o'r gweithgarwch yn dymhorol, mae nifer o forwyr mwy profiadol yn mynd ymhellach i'r môr yn rheolaidd bob adeg o'r flwyddyn pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r defnyddwyr hyn yn trysori'r ardaloedd hyn a bydd gofyn i ymgeiswyr a phenderfynwyr ystyried gweithgareddau fel y rhain. Dylid nodi bod llwybrau mordeithio pell ar draws Môr Iwerddon a Môr Hafren yn cydgyfarfod mewn ardaloedd yn y môr (3-10mf) oddi ar Sir Benfro, Bae Abertawe, Ynys Môn ac i raddau llai, Pen Llŷn.

Dylai cynigion datblygu ystyried diogelwch, natur, dwysedd a gwerth y gweithgaredd hamdden sefydledig yn yr ardal dan sylw. Dylent hefyd ystyried goblygiadau unrhyw darfu neu ddadleoli tebygol, gan roi pwyslais ar weithgareddau sy'n bwysig o safbwynt masnachol a hamdden, a phwyslais hefyd ar y graddau y mae'r effeithiau hyn yn gronnol neu'n rhyngweithio, ac ar ba mor barhaol ydynt. Os cynigion yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch mordwyo, fwy na thebyg bydd angen cynnal Asesiad Risg Mordwyo (NRA) i sicrhau y gellir rhoi ystyriaeth briodol i effaith bosibl y cynnig.

Os yw'n bosibl y bydd cynnig yn effeithio ar weithgaredd cychod hamdden neu'r ardaloedd lle cynhelir y gweithgaredd hwnnw, cynghorir yr ymgeisydd yn gryf i gysylltu â gweithredwyr perthnasol yn y sector neu eu grwpiau cynrychioliadol, er enghraifft y RYA a chlybiau ger Ardaloedd Cychod Cyffredinol, yn fuan iawn yn y broses gysyniadu, cynllunio a dylunio.

Mae'r RYA wedi paratoi adnoddau i helpu datblygwyr a phenderfynwyr i adnabod a deall effeithiau posibl cynigion datblygu ar weithgarwch cychod hamdden ac i leihau neu liniaru'r effeithiau niweidiol posibl.

Mae UK Coastal Atlas of Recreational Boating yn dangos yr ardaloedd sy'n bwysig i gychwyr hamdden. Gall datblygwyr ei ddefnyddio wrth baratoi cynigion datblygu newydd ac wrth drafod diogelwch mordwyo. Mae'r Atlas yn cyflwyno set ddata GIS o weithgarwch cychod hamdden o gwmpas y DU, gyda data gofodol sy'n dangos dwysedd gweithgarwch cychod ar y glannau, ardaloedd cychod cyffredinol, llwybrau ar y môr ynghyd â lleoliad clybiau, canolfannau hyfforddi a marinas. Gallwch weld setiau data o'r Coastal Atlas of Recreational Boating y DU sy'n berthnasol i ardal cynllun morol Cymru ym Mhorthol Cynllunio Morol Cymru.


Mae'r RYA wedi datblygu nifer o 'ddatganiadau sefyllfa', sy'n disgrifio'i safbwynt o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy, pysgota a dyframaethu newydd. Nod y datganiadau hyn yw sicrhau diogelwch wrth fordwyo a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn y sectorau hyn yn cael effaith anghymesur ar fuddiannau cychwyr hamdden. Mae'r 'datganiadau sefyllfa' yn disgrifio'r effeithiau posibl a'r prif faterion y dylid eu hystyried o safbwynt diogelwch mordwyo, lleoliad datblygiadau newydd a chyfnod datgomisiynu/dadfeilio seilwaith neu weithfa ar ddiwedd ei oes. Lle bo hynny'n bosibl, mae'r datganiadau'n cynnig mesurau posibl ar gyfer rheoli neu liniaru'r effeithiau hyn. Ceir papurau sefyllfa ynghylch:

- Pysgota a dyframaethu
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr – Ynni Gwynt
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr – Ynni'r Tonnau
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr – Ynni'r Llanw
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy ar y môr – Morlynnau Llanw

Mae'r map canlynol yn dangos yr ardal ffocws ar gyfer polisi SAF_01b ar gyfer gweithgareddau cychod hamdden (hynny yw, yr ardaloedd sydd fwyaf arwyddocaol ar gyfer gweithgarwch y sector), sy'n berthnasol ar ddyddiad cyhoeddi'r Datganiad Technegol hwn ym mis Mawrth 2023 Dylai datblygwyr a phenderfynwyr gyfeirio at fapiau cyfredol ar Borthol Cynllunio Morol Cymru.

# Cychod Hamdden

Ardaloedd a ddiogelir gan bolisi SAF_01b




NI DDYLID EI DDEFNYDDIO AR GYFER MORDWYO.
Cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023. © Data a atgynhyrchwyd dan drwydded gan y Gymdeithas Hwylio Frenhinol.
Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru. Mawrth 2023.

Mae'r ardal ffocws ar gyfer polisi SAF_01b ar gyfer gweithgareddau cychod hamdden (hynny yw, yr ardaloedd sydd fwyaf arwyddocaol ar gyfer gweithgarwch y sector)  yn seiliedig ar yr UK Coastal Atlas of Recreational Boating (2019) gan y RYA.

Mae setiau data'r RYA yn defnyddio data AIS am gychod hamdden a gafwyd rhwng mis Mai a mis Medi 2014 a 2017 i bennu dwysedd gweithgarwch cychod yn nyfroedd arfordirol y DU. Mae Atlas y RYA yn defnyddio grid 0.25km wrth 0.25km, gyda dwysedd gweithgarwch cychod ym mhob cell yn y grid yn cael ei fynegi ar raddfa logarithmig gymharol. Yn ardal cynllun morol Cymru, mae'r dwysedd cymharol yn amrywio o 0.3 i 3.4 ar raddfa logarithmig. Pennwyd ffiniau'r ardal ffocws ar sail dwysedd o 1 fan leiaf ar y raddfa hon, i ddangos y mannau lle ceir gweithgarwch cychod dwys. I roi darlun mwy cyflawn o weithgarwch cychod hamdden, mae'r map yn dangos hefyd weithgarwch llai dwys o lai na 1 ar y raddfa.

I roi darlun mwy cyflawn o weithgarwch cychod hamdden, mae'r ardal ffocws ar gyfer polisi SAF_01b ar gyfer cychod hamdden  yn cynnwys hefyd Ardaloedd Cychod Cyffredinol fel y'u diffinnir yn Atlas y RYA. Mae'r Ardaloedd Cychod Cyffredinol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan Glybiau'r RYA ar weithgareddau eu cychod, yn ogystal â setiau data'r RYA. Mae'r Ardaloedd Cychod Cyffredinol yn helpu i lenwi'r bylchau yn y data pan fo data'r AIS yn brin, ac ar y glannau a'r aberoedd.

Tynnwyd ardaloedd bach ynysig o weithgarwch tybiedig gan gychod o'r ardal ffocws ar gyfer polisi SAF_01b. Hefyd, efallai na fydd cychod hamdden llai fel dingis a chychod hwylio dydd yn defnyddio AIS. Symleiddiwyd ffiniau'r ardal ffocws i helpu i sicrhau bod y prif ardaloedd cychod hamdden yn cael eu cynrychioli ond gyda ffiniau'r ardaloedd yn cael eu nodi'n glir.